**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol _Eifion Wyn________**
(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 2** |
| Erbyn diwedd BL2 roedd y mwyafrif o'r plant yn dechrau dangos ymwybydiaeth o rai o nodweddion Cristnogaeth drwy ymdrin â gwahanol gweithgareddau ymarferol.<br>Erbyn diwedd Bl 4 cafwyd sylfaen dda i archwilio credoau, dysgeidiaeth ac arferion crefyddol er mwyn datblygu ymatebion personol i gredoau a chwestiynnau sylfaenol yn ddiweddarach yn CA2<br>Erbyn diwedd Bl6 dengys y dystiolaeth fod y plant yn meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn maent yn eu hastudio. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| Ail edrych ar y cynllun gwaith yn sgîl Bl1 a Bl2 yn ymdrin â'r Cyfnod Sylfaen<br>Rhoi cyfleoedd i'r plant allu trafod cwestiynnau mawr bywyd gan ganolbwyntio am chwilio amystyr arwyddocad a gwerth mewn bywyd, gan wneud hynny ar lefel sy'n briodol a pherthnasol i'w hoedran a'u gallu |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd : 2** |
| Mae'r ddarpariaeth yn gryf mewn cyfnodau o addoli ar y cyd mewn gwasanaethau ysgol gyfan. Mae'r cynnwys yn foesol ac ysbrydol, â'r plant yn ymateb yn fyrlymus a brwdfrydig. Mae eu dealltwriaeth a'u hymwybydiaeth foesol ac<br>ysbrydol yn cael ei gryfhau, a hynny wedyn yn eu cynorthwyo, wrth iddynt chwilio am ystyr a phwrpas |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| Datblygu'r un egwyddorion moesol ac ysbrydol mewn gwersi Addysg Grefyddol ac a geir mewn gwasanaethau.<br>Ceisio datblygu'r berthynas rhwng addysg Grefyddol â phynciau megis Dinasyddiaeth fyd eang ac ati |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad:** | **2008 /2009** |
| **Arwyddwyd:**<br>**(Pennaeth)** | **Ken Hughes** |

*** Gwnaed yr hunan arfarniad yn 2008 gan fod yr ysgol yn wynebu arolwg yn 2009-2010**